



POLISI CYDRADDOLDEB STRATEGOL

DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd rydym am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a'u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac fe fydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

1 Y weledigaeth o ran cydraddoldeb ac amcanion cydraddoldeb	3
2 Yr agenda cydraddoldeb genedlaethol	
2.1 Deddf Cydraddoldeb 2010	3
2.2 Deddf Hawliau Dynol 1998	4
2.3 Deddf y Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.....	4
2.4 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.....	4
2.5 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.....	5
3 Cam-drin wedi'i ysgogi gan gasineb.....	5
4 Disgyblion	6
4.1 Ysgol i bawb	6
4.2 Sut rydym yn sicrhau cydraddoldeb	6
4.3 Pa gymorth y gallwch ddisgwyl ei gael?.....	7
4.4 Camau Gweithredu Cadarnhaol.....	7
4.5 Cyfathrebu	7
4.6 Cwricwlwm, adnoddau a chynnwys	7
4.7 Prynu nwyddau a gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth	8
4.8 Ymgysylltu	8
4.9 Hyfforddiant	8
4.10 Cwynion a sylwadau	9
5. Gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu.....	9
5.1. Gwahaniaethu	9
5.2 Aflonyddu gan gynnwys bwlio	9
5.3 Erledigaeth.....	10
5.4. Gwahaniaethu	10
6 Perfformiad/safonau - y ffordd rydym yn cyflawni'r polisi.....	11
6.1 Arwain a Rheoli.....	11
6.2 Gwneud penderfyniadau ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	11
6.3 Nodi a gwybodaeth cydraddoldeb.....	11
7 Cyflogaeth.....	11
7.1 Cyflogaeth.....	11
7.2 Ceisiadau mewn perthynas â nodwedd warchodedig	12
7.3 Camau gweithredu cadarnhaol ym maes Cyflogaeth.....	12
7.4 Monitro a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth	12
8 Cynllun Gweithredu 2016-2020	12
 Atodiad 1: Protocol ar Gyfer Ymateb i Ymddygiad Gwahaniaethol	13
Atodiad 2: Ymagwedd Gwrth-Hiliaeth	14
Atodiad 3: Arfer Dda i Staff	18
Atodiad 4: Protocol ar Gyfer Ymateb i Ddigwyddiad o Hiliaeth	19

Gweledigaeth/neu egwyddorion yr ysgol

“Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd”

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd rydym am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a'u gwlad, Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac fe fydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

Hwn yw Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol (SEP) - mae'n adeiladu ar Bolisi Anabledd, Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a Pholisïau Cydraddoldeb blaenorol yr ysgol. Mae'n rhychwantu Polisi Cynhwysiant yr ysgol ac ati. Mae'r polisi hwn yn perthyn i bawb ac mae'n berthnasol i bob disgybl, staff addysgu a staff gweinyddol, rhieni, gofalwyr, cefnogwyr a'r gymuned leol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi'r fframwaith i ni ar gyfer y cynllun hwn. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf yr Iaith Gymraeg 1998 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd yn berthnasol i'r polisi hwn. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gorff Llywodraethol yr Ysgol.

1. Y weledigaeth o ran cydraddoldeb ac amcanion cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol roi amcanion cydraddoldeb ar waith erbyn mis Ebrill 2012. Mae'r amcanion hyn yn cwmpasu pob un o'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu greddo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, ac maent yn cynnwys y Gymraeg yng Nghymru.

2. Agenda cydraddoldeb cenedlaethol

Mae'r darnau canlynol o ddeddfwriaeth wrth wraidd yr agenda cydraddoldeb.

2.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae naw nodwedd warchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys pawb: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu greddo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi Dyletswyddau'r Sector Cyhoeddus sy'n berthnasol i holl swyddogaethau'r ysgol:-

- Hyrwyddo cyfle cyfartal

- Hyrwyddo cysylltiadau cymunedol da
- Dileu gwahaniaethu

Nodir dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, fel y'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

2.2 Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae cyswllt annatod rhwng Hawliau Dynol a chydaddoldeb. Mae cydraddoldeb yn cael ei drin fel hawl ddynol sylfaenol, ar sail yr egwyddor y dylid rhoi'r un parch tuag at urddas cynhenid pob person.

Mae Erthygl 14 o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gwahardd gwahaniaethu 'ar unrhyw sail megis rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, cefndir cenedlaethol neu gymdeithasol, cyswllt gyda lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall'.

Diben y geiriau 'statws arall' yw cynnwys, ymhlith pethau eraill, gyfeiriadedd rhywiol, anghyfreithlondeb, statws priodasol, aelodaeth o undeb llafur, trawsrywioledd, anabledd, gofawyr a charcharu.

Dim ond pan fydd wedi'i hatodi i gŵyn sy'n ymwneud ag un o erthyglau eraill y Confensiwn megis Erthygl 3: yr hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch unigolyn neu Erthygl 8: yr hawl i gael gohebiaeth, cartref a bywyd teuluol a phreifat, y gellir defnyddio Erthygl 14.

Mewn rhai achosion mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi mwy o hawliau i bobl nag y mae deddfwriaeth arall ynglŷn â chydaddoldeb yn ei wneud oherwydd mae'n barnu triniaeth yn erbyn safon sefydlog ac nid yw'n dibynnu ar gymharu'r driniaeth a roddir i un grŵp o bobl â'r driniaeth a roddir i grŵp arall.

2.3 Deddf y Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae gan y Gymraeg statws swyddogol ac mae'n perthyn i bawb yng Nghymru. Mae Mesur y Gymraeg yn sefydlu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Cymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg gan Gyngor Bro Morgannwg yn 2009 ac mae'n gymwys i bob ysgol. Mae egwyddorion y Cynllun hwnnw a'r Cynllun hwn yn debyg o ran hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da a byddwn yn ystyried yr iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig eraill.

2.4 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Mae Adran 26 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar gyrff penodol ("awdurdodau penodedig", gan gynnwys ysgolion a darparwyr gofal plant cofrestredig) i roi "sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth".

Wrth gyflawni'r ddyletswydd yn adran 26 o'r Ddeddf, disgwylir i bob awdurdod penodedig gymryd rhan lawn yn y gwaith o atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Disgwylir i awdurdodau penodedig asesu'r risg y caiff plant eu tynnu i mewn i derfysgaeth, gan gynnwys cefnogaeth i syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg derfysgol.

Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth, a rennir â phartneriaid, o'r risg bosibl yn yr ardal leol.

Bydd angen i awdurdodau penodedig ddangos eu bod yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth drwy sicrhau bod ganddynt bolisiau diogelu cadarn ar waith i nodi plant sydd mewn perygl ac ymyrryd fel y bo'n briodol.

Dylai awdurdodau penodedig wneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant sy'n rhoi iddynt y wybodaeth a'r hyder i nodi plant sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, a herio syniadau eithafol y gellir eu defnyddio i gyfiawnhau derfysgaeth ac a rennir gan grwpiau terfysgol.

Mae'r ddyletswydd yn debygol o fod yn berthnasol i'r gwaith o gyflawni cyfrifoldebau eraill megis y ddyletswydd sy'n deillio o adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

2.5 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae dyletswydd i gyfeirio.

"Os oes gan unrhyw unigolyn wybodaeth, pryderon neu amheuaeth bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef niwed neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio."

Mae diogelu yn ymwneud â gweithredu i hyrwyddo lles plant a'u diogelu rhag niwed. Mae'n ymwneud â chadw plant yn ddiogel rhag niwed ac aflonyddu. Mae hyn yn golygu cadw plant yn ddiogel rhag damweiniau, troseddau a bwlio, a hyrwyddo eu lles mewn amgylchedd iach, diogel a chefnogol.

Mae ein hysgol yn ymrwymedig i sicrhau nad yw unigolion nac unrhyw grŵp yn cael eu tanseilio oherwydd eu hil, diwylliant, ethnigrwydd, cefndir cenedlaethol neu grefyddol. Ni ddylai unrhyw ddisgybl, cyflogai, llywodraethwr ysgol, rhiant/gofalwr nac aelod o'r gymuned brofi anfantais nac anghydraddoldeb yn yr amgylchedd dysgu neu waith yr ysgol. Rydym yn cydnabod ac yn derbyn mai cyfrifoldeb ar y cyd pob aelod o'r gymuned ysgol yw dileu gwahaniaethu yn ein hamgylcheddau dysgu a gwaith, a herio'r agweddau sy'n ei ganiatáu i ymddangos.

3. Cam-drin wedi'i ysgogi gan gasineb

Mae cam-drin wedi'i ysgogi gan gasineb yn frawychus, yn drawmatig ac fe all fod yn drosedd. Mae digwyddiad casineb yn unrhyw ddigwyddiad sy'n cael ei ganfod gan y dioddefwr neu unrhyw dyst fel un sy'n cael ei ysgogi gan ragfarn neu gasineb tuag at agwedd ar hunaniaeth unigolyn (un o'r naw nodwedd warchodedig gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys hil). Nid oes rhaid i chi fod yn aelod o'r grŵp sy'n cael ei dargedu gan y gelyniaeth.

Mae digwyddiadau o'r fath yn cynnwys troseddau nad ydynt yn droseddol, fel bwlio ar y cyfryngau cymdeithasol neu sylwadau llafar.

Yr hyn sy'n ei wneud yn drosedd gasineb yw'r canfyddiad gan y dioddefwr neu'r tystion bod y weithred wedi'i hysgogi gan ragfarn neu gasineb yn seiliedig ar un o'r naw nodwedd warchodedig.

Fel ysgol rydym yn croesawu amrywiaeth diwylliannau, cefndiroedd, crefyddau a chredoau ac yn dathlu cefndiroedd yr holl ddysgwyr, staff ac eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Nod yr ysgol yw creu diwylliant ysgol gynhwysol sy'n meithrin derbyn a pharch tuag at amrywiaeth. Trwy wneud hynny, rydym yn ceisio dyfnhau dealltwriaeth a gwybodaeth, hyrwyddo lles disgyblion a staff, a helpu pawb i gyflawni eu potensial llawn.

4. Disgyblion

4.1 Ysgol i bawb

Mae ein hysgol ar agor i bawb. Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn ein meini prawf derbyn, wrth ddarparu addysg a mynediad at unrhyw fuddiant, gwasanaeth neu gyfleuster yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn unrhyw un sydd â nodwedd warchodedig.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail:

- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- a'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Oedran yw'r 9^{fed} nodwedd warchodedig. Yng nghyd-destun ysgol mae'n gymwys i bawb ac eithrio disgyblion.

Yn ein hysgol cynigir cyfleoedd o'r un safon uchel i bawb.

Mae dyletswydd yr ysgol i'n disgyblion yn mynd y tu hwnt i ddarparu addysg ffurfiol. Mae hefyd yn cwmpasu holl weithgareddau'r ysgol, megis gweithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau hamdden, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwaith cartref, gweithgareddau chwaraeon a theithiau ysgol, yn ogystal â chyfleusterau'r ysgol megis llyfrgelloedd a chyfleusterau TG ac ati.

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl. Mae'r ddyletswydd yn rhagflaenorol. Bydd yr ysgol yn gofyn i ddisgyblion anabl a oes angen unrhyw gymorth neu addasiadau arnynt fel y byddwn yn barod amdanynt e.e. llunio nodiadau'r wers mewn print bras neu ar ffurf electronig cyn y wers. Mewn rhai achosion efallai y caiff disgybl anabl gymorth o dan y fframwaith anghenion addysgol arbennig (AAA) o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1993. Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd a theuluoedd i gefnogi'r proses pontio.

4.2 Sut rydym yn sicrhau cydraddoldeb

Byddwn yn hybu ac yn sicrhau cydraddoldeb wrth ddarparu addysg, mynediad at fuddiannau, gwasanaeth neu gyfleusterau drwy sicrhau'r canlynol:

- Bod pobl yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb ac ymrwymïadau'r ysgol o ran cydraddoldeb
- Bod pobl yn gallu mwynhau'r holl fanteision sy'n deillio o fod yn yr ysgol
- Bod pobl yn gwybod sut i ofyn am help
- Y cynigir cymorth addas i bobl e.e. cyfieithu a dehongli, cludiant, technoleg, addasiadau ac ati pan fyddai unigolyn o dan anfantais ar sail nodwedd warchodedig pe na bai'r gwasanaethau hyn ar gael - er mwyn diwallu angen, nid dim ond bodloni dymuniad.
- Bod yr effaith ar yr unigolyn dan sylw yn bwysig iawn wrth benderfynu beth sy'n rhesymol

4.3 Pa gymorth y gallwch ddisgwyl ei gael?

Dim ond os gall brofi bod y gwasanaeth hwnnw yn 'afresymol' neu'n 'anymarferol' y gall yr ysgol wrthod ddarparu cymorth neu wneud addasiadau. Fodd bynnag, dim ond i amgylchiadau penodol ac amgylchiadau nas rhagwelwyd y gall hyn fod yn gymwys.

4.4 Camau Gweithredu Cadarnhaol

Gall yr ysgol gymryd camau cadarnhaol cymesur er mwyn mynd i'r afael ag anfanteision a wynebwr gan ddisgyblion â nodwedd warchodedig, neu pan fyddai'n galluogi neu'n annog grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol i gyfranogi. Byddwn yn casglu tystiolaeth cyn cymryd camau cadarnhaol.

4.5 Cyfathrebu

Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â phobl mewn ffordd sy'n addas iddynt. Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Llunio deunyddiau sy'n hawdd eu darllen, mewn iaith glir a gyda chynllun clir
- Defnyddio delweddau sy'n adlewyrchu'r ysgol a'n cymuned leol
- Gofyn i bobl nodi eu dewis ddull cyfathrebu, lle y gallwn ei gofnodi a'i ddefnyddio e.e. e-bost yn hytrach na llythyrau at rieni a gofawyr
- Darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gan gynnwys print bras, Braille, ieithoedd lleol ac ati lle y bo angen
- Atodi manylion cyswllt llawn er mwyn ei gwneud yn hawdd i bobl gysylltu â ni
- Rhoi hyfforddiant a chymorth i gyflogeion o ran cyfathrebu

Mae'r ysgol yn cydnabod iaith Arwyddion Prydain fel iaith yn ei rhinwedd ei hun. Bydd yr ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth Pobl Fyddar ac yn defnyddio deunydd dehongli a recordiadau addas yn BSL pan yn anghenrheidiol.

Byddwn yn rhoi hyfforddiant perthnasol i staff ym meysydd cydraddoldeb pobl fyddar a sgiliau BSL ac yn rhoi gwybod amdano i bob aelod o staff sydd â'r sgiliau perthnasol i ymdrin â disgyblion, ymwelwyr, rhieni a llywodraethwyr.

4.6 Cwricwlwm, adnoddau a chynnwys

Byddwn yn sicrhau cydraddoldeb drwy'r cwricwlwm yn y deunyddiau a'r gweithgareddau amrywiol a heriol a ddewisir gennym. Byddwn yn helpu plant a phobl ifanc i ystyried eu bywydau a'u hunaniaeth bersonol, a hynny yng ngoleuni profiadau pobl sy'n debyg ac yn wahanol iddynt.

Bydd y delweddau a ddefnyddir gennym yn adlewyrchu natur amrywiol cymdeithas mewn ffordd gadarnhaol er mwyn cyflawni trydedd ddyletswydd y Ddeddf Cydraddoldeb - sef hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl. Ni fyddwn yn hepgor nac yn osgoi materion cydraddoldeb penodol oherwydd, petaem yn gwneud hynny, byddem yn hyrwyddo darlun anghywir o bobl Bro Morgannwg.

Byddwn yn croesawu pobl o bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig i'n hysgol er mwyn rhannu eu sgiliau a'u profiad. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n gartrefol.

4.7 Prynu nwyddau a gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth

Bydd yr ysgol yn trosglwyddo ei dyletswyddau o ran cydraddoldeb i unrhyw berson neu gorff:

- sy'n gweithio i ni neu gyda ni,
- yn dosbarthu nwyddau ar ein rhan,
- p'un a yw'n gyflogedig, yn wirfoddol neu'n bartner.

Bydd holl gontractau'r ysgol yn nodi bod yn rhaid iddynt gyrraedd y safonau cydraddoldeb fel y'u nodir yn y Cynllun hwn. Mae hyn yn golygu y bydd gweithgareddau sy'n ymwneud â'r ysgol yn deg ac yn gyfartal i bob cyflogai, disgybl a rhiant.

4.8 Ymgysylltu

Mae'r ysgol yn ymgynghori â phob un o randdeiliaid yr ysgol ynghylch materion sy'n ymwneud â hwy, gan gynnwys y Cynllun hwn a'r Amcanion Cydraddoldeb, ac mae'n rhoi cyfle iddynt gyfranogi yn y materion hynny. Bydd ymgysylltu â phobl yn darparu tystiolaeth er mwyn i ni allu gweld pa mor dda rydym yn perfformio o ran sicrhau cydraddoldeb.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau ar gyfer nodi'r hyn y mae rhanddeiliaid yn ei feddwl ac yn ei deimlo am yr ysgol.

4.9 Hyfforddiant

Bydd yr ysgol yn gwneud yn siŵr bod pawb sy'n ymwneud â'r ysgol yn ymwybodol o'n hymrwymadau o ran cydraddoldeb a'u dyletswydd bersonol o dan yr ymrwymadau hynny. Byddwn yn rhoi hyfforddiant addas i bob aelod o staff a disgybl. Lle mae problemau neu broblemau posibl e.e. tensiynau cymdeithasol, byddwn yn parhau i fynd i'r afael â materion drwy'r cwricwlwm, sesiynau bugeiliol a, lle y bo angen, yn defnyddio ymyriadau allanol wedi'u targedu, er enghraifft Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

Byddwn yn annog cyflogeion a llywodraethwyr i barhau i ddatblygu eu dysgu a'u profiad o faterion cydraddoldeb drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys astudio, cysgodi, partneriaethau a gwaith gefeillio ac ati.

4.10 Cwynion a sylwadau

Mae'r ysgol yn annog cyfathrebu cynnar am unrhyw bryderon. Mae'r polisi cwynion ar gael ar y wefan neu drwy gysylltu gyda'r ysgol. Mae gwasanaeth eirioli a chymorth personol ar gael i blant a phobl sydd eu hangen.

5. Gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu

5.1. Gwahaniaethu

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu. Bydd yr ysgol yn gwneud yn siŵr na fydd unrhyw beth a wnawn yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson neu bobl ar sail nodwedd warchodedig. Mae Hawliau Dynol yn gymwys i bawb mewn perthynas â'r ysgol.

Mae pedwar math o wahaniaethu anghyfreithlon, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Maent yn gymwys i'r ffordd y darperir gwasanaethau a chyflogaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig:

1. **Gwahaniaethu uniongyrchol** – pan fydd unigolyn yn trin unigolyn arall yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig e.e. gwrthod rhoi lle i belntyn oherwydd nodwedd gwarchodedig.
2. **Gwahaniaethu uniongyrchol cyfun (deuol) /croestoriadedd** - pan fydd unigolyn yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd cyfuniad o nodweddion gwarchodedig e.e. mae ysgol yn gwahardd disgybl am ei fod yn ddu ac yn wrywaidd.

Mae **gwahaniaethu ar sail cysylltiad** bellach yn anghyfreithlon. Mae gwahaniaethau uniongyrchol yn digwydd pan fyddwch yn trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad ag unigolyn arall sydd â nodwedd warchodedig e.e. mae ei frawd yn berson anabl.

Mae **gwahaniaethu yn seiliedig ar ganfyddiad** bellach yn anghyfreithlon. Mae gwahaniaethu uniongyrchol hefyd yn digwydd pan fyddwch yn trin disgybl yn llai ffafriol am eich bod yn meddwl, drwy gangymeriad, fod ganddo nodwedd warchodedig e.e. gwahaniaethu yn erbyn person ifanc y credir ei fod yn hoyw, hyd yn oed os nad yw'n hoyw.

3. **Gwahaniaethau anuniongyrchol** – pan ymddengys fod polisi neu arfer yn niwtral ond mae'r effaith yn rhoi grŵp o bobl o dan gryn anfantais e.e. cod gwisg ysgol llym nad yw'n cyfrif am ddillad sy'n gysylltiedig â chrefydd.
4. **Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd** – pan gaiff unigolyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd rhywbeth sy'n ymwneud â'u nam e.e. disgybl ag anabledd dysgu sy'n cael ei ddisgyblu am beidio ag ufuddhau i reol nad oedd wedi'i deall am nad oedd yn deall yr arwydd.

5.2 Aflonyddu gan gynnwys bwlio

Bydd gwaith yr ysgol mewn perthynas ag addysg bersonol a chymdeithasol yn helpu i adeiladu cymuned ysgol sy'n deall ac yn profi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag aflonydd. Mae aflonyddu yn ymddygiad nad oes ei eisiau sydd â'r nod o dreisio urddas unigolyn neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, sarhaus neu dramgwyddus i'r unigolyn hwnnw neu'n sy'n achosi i hynny ddigwydd.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw amddiffyn disgyblion, darpar ddisgyblion, cyn-ddisgyblion, cyflogeion ac ati rhag aflonyddu. Bydd yr ysgol yn mynd ati mewn ffordd ragweithiol i amddiffyn pobl drwy godi ymwybyddiaeth, hyfforddi athrawon a disgyblion ac annog pobl i roi gwybod am achosion o aflonyddu a bydd yn ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi.

Mae aflonyddu bellach yn cynnwys **aflonyddu yn seiliedig ar gysylltiad** h.y. ffrind person anabl, **neu ganfyddiad** h.y. unigolyn y credir ei fod yn Fwslim mewn camgymeriad.

Lle y ceir achosion o fwlio yn yr ysgol ac yn gysylltiedig â hi, byddwn yn ymdrin â'r achosion hyn yn brydlon ac yn sensitif. Rydym yn cydnabod bod achosion a ysgogir gan ragfarn yn erbyn pobl â nodwedd benodol, neu fwlio sy'n effeithio ar un grŵp o bobl yn benodol, yn cael mwy o effaith negyddol ar y bobl sy'n gysylltiedig â'r achosion hynny a chymuned yr ysgol.

5.3 Erledigaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag erledigaeth ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Y diffiniad o Erledigaeth yw pan fydd unigolyn yn trin person arall yn anffafriol am ei fod wedi cyflawni, neu am y credir y bydd yn cyflawni, 'gweithred warchodedig.'

Mae 'gweithred warchodedig' yn weithred sy'n cynnwys rhoi gwybodaeth neu dystiolaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dwyn achos cyfreithiol, neu wneud honiad mewn perthynas â'r Ddeddf, ar yr amod ei fod wedi gwneud hynny yn ddidwyll. Hynny yw, roeddent yn credu eu bod yn ymddwyn yn onest.

5.4. Gwahaniaethu

Mae galw enwau, ymosodiadau corfforol, bygythiadau, lledaenu sion anwir yn bersonol ac ar-lein oll yn fwy difrifol byth pan gaiff unigolyn ei erlyn oherwydd pwy ydyw. Gwyddom fod gwahaniaethu a rhagfarn yn arbennig o niweidiol i'r unigolyn a'r teulu, ffrindiau a chymuned yr ysgol. Bydd yr ysgol yn cymryd achosion o wahaniaethu o ddifrif ac yn ymdrin â hwy yn sensitif. Mae honiadau anwir hefyd yn cael eu cymryd o ddifrif.

Byddwn yn chwarae rhan weithredol pan nodir achos o wahaniaethu sy'n ymwneud â'n cyflogeion, ein disgyblion neu ein safle.

Caiff achosion o wahaniaethu sy'n cynnwys oedolion eu trin yn wahanol i'r rhai sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Mae pob oedolyn yn llwyr gyfrifol am ei weithredoedd. Efallai y bydd angen cymorth ac addysg ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â rhagfarn a gwahaniaethu ac, felly, byddwn yn ceisio dod o hyd i atebion sy'n cynnwys y grŵp cyfan neu unigolion. Byddwn yn gweithio gyda

phartneriaid i ddod o hyd i atebion, yn enwedig lle mae achosion yn gymhleth neu lle maent yn cynnwys grŵp ehangach o bobl.

6. Perfformiad/safonau - y ffordd rydym yn cyflawni'r polisi

6.1 Arwain a Rheoli

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol o ran cydraddoldeb. Mae gan aelod o'r Corff Llywodraethu friff gwylio ar gyfer materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gyda chymorth y Pennaeth, bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau y caiff y Cynllun hwn ei roi ar waith.

Mae materion cydraddoldeb yn eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y Corff Llywodraethu ac mae llywodraethwr yn gyfrifol am gydraddoldebau ac amrywiaeth.

Y person a enwir sy'n gyfrifol am ymdrin ag achosion o wahaniaethu neu fwlio y rhoddwyd gwybod amdanynt yw'r Pennaeth Blwyddyn. Bydd yr ysgol yn sicrhau y rhoddir gwybod am bob achos o wahaniaethu ac y caiff ei gofnodi mewn cofrestr. Mae'r achosion hyn yn ymwneud â'r ysgol, ei disgyblion a'i staff. Rhennir y gofrestr gyda'r awdurdod lleol er mwyn ei helpu i gynllunio gwaith gwrth-wahaniaethu. Ni fydd yr ysgol na'r awdurdod lleol byth yn cyhoeddi manylion unigolion a oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau.

Mae gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain gyfrifoldeb am weithredu a hyrwyddo materion cydraddoldeb.

6.2 Gwneud penderfyniadau ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae asesu effaith yn cyfeirio at y gwaith o adolygu pob cynllun a pholisi presennol a rhai arfaethedig er mwyn ein helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau nad oes unrhyw berson yn wynebu anfantais oherwydd gweithgareddau'r Ysgol drwy wahaniaethu. Mae asesiadau effaith yn broses barhaus sy'n sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n gynyddol gynhwysol a theg.

Fel rhan o gydymffurfiaeth yr Ysgol hon â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gynnal asesiad effaith o bob polisi a chynllun newydd cyn ei roi ar waith. Yn yr un modd, byddwn yn asesu ein polisïau a'n cynlluniau presennol pryd bynnag y cant eu hadolygu. Fel y cyfryw, caiff asesiadau effaith eu cynnwys yn adolygiad a gynlluniwyd yr Ysgol o bob polisi a'r broses o'u diwygio.

6.3 Nodi gwybodaeth cydraddoldeb

Bydd yr ysgol yn nodi a dadansoddi data yn flynyddol er mwyn gwerthuso sut rydym yn cyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb.

7. Cyflogaeth

7.1 Cyflogaeth

Nod yr ysgol yw bod yn gyflogwr teg a hyrwyddo diwylliant gwaith cyfeillgar. Heb frwdfrydedd ymroddedig a phobl fedrus sydd wedi'i grymuso ni all yr ysgol lwyddo. Byddwn yn creu amgylchedd iach, diogel a chefnogol lle y caiff pobl eu parchu am bwy ydynt ac y gall cyflogeion berfformio ar eu gorau.

Rydym am i'n gweithlu adlewyrchu cymdeithas ym Mro Morgannwg a Chymru. Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl wrth ddewis a chyflogi pobl, o ran cyflogaeth, mynediad at hyfforddiant, cael dyrchafiad, trosglwyddo, ymddeol, diswyddo a buddiannau eraill ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig.

Cwmpesir cyflogeion yr ysgol gan Bolisi Cyflog yr ysgol sy'n sicrhau bod gennym raddfeydd cyflog cadarn, prosesau rheoli perfformiad ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cyflogeion ar bob lefel o gyflogaeth.

7.2 Ceisiadau mewn perthynas â nodwedd warchodedig

Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i ganiatáu ceisiadau cyflogeion sy'n ymwneud â nodwedd warchodedig, gan gynnwys gwisg, bwyd, gwyliau, amseroedd gweddïo, patrymau gwaith, absenoldeb o'r gwaith, cymorth, addasiadau ffisegol ac ati er mwyn peidio â gwahaniaethu.

7.3 Camau gweithredu cadarnhaol ym maes Cyflogaeth

Gellir cymryd camau cadarnhaol er mwyn gwrthbwysio effeithiau gwahaniaethu yn y gorffennol, fel y gall pobl mewn grwpiau o'r fath wireddu eu potensial. Bydd yn darparu tystiolaeth i ategu ein cred bod anfanteision neu dangynrychiolaeth o'r fath yn bodoli cyn gweithredu.

7.4 Monitro a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth

Byddwn yn monitro ac yn cyhoeddi gwybodaeth cydraddoldeb am ein gweithlu yn unol â Chynllun Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys monitro gweithgarwch recriwtio, datblygiad cyflogeion a chyfraddau cadw.

Mae gwasanaeth cyflogres y cyngor yn ein helpu i wneud hyn. Byddwn yn cyhoeddi data mewn ffordd nad yw'n nodi pwy yw unigolion.

Ni fydd ffigurau ar gyfer cyflogaeth yn ein hysbysu am y rheswm dros unrhyw wahaniaethau. Ar gyfer achosion unrhyw wahaniaethau a chamau gweithredu, byddwn yn holi cyflogeion presennol a darpar gyflogeion ynghylch eu barn a'u profiad.

8. Cynllun Gweithredu

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan arferol o fusnes yr ysgol bob dydd. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi prif brosiectau cydraddoldeb yr ysgol. Efallai y bydd angen gwneud mwy o waith neu waith gwahanol wrth i gyfleoedd godi.

Atodiad Protocol ar Gyfer Ymateb i Ymddygiad Gwahaniaethol

1

Ymateb i wahaniaethu uniongyrchol/anuniongyrchol:

Cam 1:

- Mae aelod o staff yn clywed neu'n cael gwybod am ymddygiad gwahaniaethol
- Mae'r aelod o staff yn ymateb drwy herio'r ymddygiad hwn. Enghreifftiau o ymatebion:
"Nid yw'r iaith hon yn dderbyniol"
"Mae'r term hwn yn sarhaus i rywun sydd yn....Wyt ti'n deall ystyr y gair?"

Cam 2:

- Mae'r aelod o staff yn cofnodi'r ymddygiad ar Classcharts ac ar My Concern

Cam 3:

- Bydd Pennaeth Blwyddyn/Arweinydd Cynradd yn ymchwilio'n llawn i'r sefyllfa ac yn cysylltu â rhieni'r disgyblion dan sylw
- Pan fydd y sefyllfa wedi cael ei hymchwilio, bydd canlyniadau yn cael eu penderfynu yn unol â pholisi'r Ysgol
- Mae angen addysg hefyd wrth ddelio â'r rhai sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau gwahaniaethol. Pan fydd digwyddiadau yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth, bydd y dysgwr/dysgwyr yn cael eu cyfeirio at ddarllen / tasg empathi / myfyrio ar y niwed a achoswyd / archwilio tarddiad eu rhagfarnau eu hunain
- Pan fydd y digwyddiad yn deillio o fwriad i achosi niwed / gofid / neu pan fo'n ddigwyddiad gwahaniaethol ailadroddus, bydd y disgyblion dan sylw yn derbyn canlyniad yn unol â pholisïau gwrth-fwlio ac ymddygiad/perthnasau'r ysgol. Gall y canlyniadau gynnwys:
 - Diarddeliad dros dro
 - Ystafell Cefnogi Ymddygiad
 - Cosb amser cinio

Cam 4:

- Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn cynnal sesiwn cymell gyda'r disgybl sydd wedi dioddef gwahaniaethu ac hefyd gyda'r disgybl a ddangosodd ymddygiad gwahaniaethol (ar wahan i ddechrau)
- Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn monitro'r sefyllfa'n ofalus, gan ystyried gweithredoedd a theimladau'r holl bartïon. Os bydd cynnydd neu barhad mewn

ymddygiad gwahaniaethol, bydd polisi perthnasau'r ysgol yn cael ei ddilyn i adlewyrchu'r cynnydd neu'r parhad hwnnw.

Atodiad Ymagwedd Gwrth-hiliaeth

2

Mae'r ysgol hon yn cydnabod diffiniad hiliaeth sefydliadol fel y'i nodir yn Adroddiad McPherson ac yn ymdrechu i fynd i'r afael ag ef ym mhob ffurf. Diffinnir hiliaeth sefydliadol fel:

“Methiant ar y sefydliad i ddarparu gwasanaeth priodol a phroffesiynol i bobl oherwydd eu diwylliant, lliw neu darddiad ethnig. Gellir ei weld neu ei ganfod mewn prosesau, agweddau ac ymddygiad sy'n arwain at wahaniaethu trwy ragfarn anymwybodol, anwybodaeth, difaterwch neu stereoteipio hiliol sy'n niweidio pobl leiafrifol ethnig.”

Y diffiniad cyfreithiol presennol o hiliaeth yn y DU yw unrhyw ddigwyddiad sy'n cael ei ganfod gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall fel un sy'n cael ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil person neu hil a ganfyddir.

Enghreifftiau o aflonyddu hiliol yw:

- Ymddygiad llafar o natur hiliol: galw enwau sarhaus, cael eich targedu â jôcs hiliol, 'banter' a sbort, sylwadau maleisus, agweddau gelyniaethus.
- Ymddygiad di-eiriau o natur hiliol: arddangos deunydd hiliol, graffiti, difrodi eiddo personol, gwrthod cyfleoedd neu wahardd rhag gweithgareddau cymdeithasol oherwydd tarddiad ethnig, lliw, cenedligrwydd, neu ar sail hil.
- Rhaid i bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr, deimlo'n hyderus y bydd unrhyw ddigwyddiad hiliol yn cael ei ymchwilio'n drylwyr a bod cymorth a chefnogaeth ar gael i bawb dan sylw.

1. Atal

Mae ein hymagwedd at atal hiliaeth yn yr ysgol yn cynnwys addysgu uniongyrchol am hiliaeth a'i heffeithiau, dathlu gwahaniaeth ac amrywiaeth, a hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac ymddygiad cadarnhaol. Rydym yn gwneud hyn drwy:

1. Ethos a'r amgylchedd ysgol gyfan
 2. Gweithgareddau ysgol gyfan
 3. Y cwricwlwm
 4. Hyfforddiant a chefnogaeth i staff
 5. Cynnwys dysgwyr
 6. Partneriaethau â rhieni, gofalwyr a chymunedau
-

2. Ymrwymïadau

Mae'r ysgol hon yn ymrwmo i fod yn ysgol wrth-hiliol ac i hyrwyddo cydraddoldeb a brwydro yn weithredol yn erbyn gwahaniaethu ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Rydym:

- Yn ymrwmo i ddileu gwahaniaethu hiliol, gan gynnwys hiliaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol (rhyw ragfarn anymwybodol, microymosodiadau, goruchafiaeth wyn), difenwi hiliol, cam-drin ac aflonyddu, ym mhob agwedd ar yr amgylchedd dysgu a gwaith.
- Yn sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y polisi hwn.
- Yn herio gwahaniaethu hiliol, ymddygiad hiliol, iaith hiliol neu aflonyddu, rhagfarn a stereoteipio, waeth pa mor ddiofal neu anymwybodol.
- Yn ymrwmo i ddarparu amgylchedd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn ystyried traddodiadau, diwylliannau ac arferion crefyddol pobl o wahanol hiliau a rhanbarthau.
- Yn ymdrechgu i atal gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, amlwg neu gudd ar sail lliw, ethnigrwydd neu darddiad daearyddol.
- Yn darparu strwythur i ddysgwyr, staff, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach i gyflwyno a datrys cwynion.
- Yn helpu i nodi unrhyw rwystrau i gyfle cyfartal i ddysgwyr a staff ac yn sicrhau bod y rhwystrau hynny'n cael eu goresgyn lle bo'n bosib.
- Yn sicrhau bod pob dysgwr a staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyflawni eu potensial llawn.
- Yn addysgu staff a dysgwyr am faterion a damcaniaethau sy'n ymwneud â hiliaeth megis breintiau'r bobl gwyn, rhagfarn anymwybodol, microymosodiadau, hanes Cymru fel gwlad amlddiwylliannol ac amlethnig, llythrennedd hiliol, lliwiaeth, ac ecsbloetio diwylliannol – er mwyn gallu adnabod a rhoi gwybod am hiliaeth ym mhob ffurf. Mae dull yr ysgol yn adlewyrchu arweiniad y llywodraeth genedlaethol a lleol.
- Yn gweithredu arferion cyflogaeth gwrth-wahaniaethol.

Yn

ogystal:

- Mae cymuned yr ysgol yn cydnabod ac yn meithrin hunaniaeth dysgwyr a staff o bob ffydd, ethnigrwydd a diwylliant.
- Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth ein cymuned ysgol a'r byd ehangach.
- Mae'r ysgol yn ceisio datblygu iaith, ymwybyddiaeth, delweddau, modelau rôl a strategaethau gwrth-hiliaeth gadarnhaol er mwyn creu polisïau, arferion ac amgylchedd sy'n adlewyrchu'r gred bod pawb yn gyfartal, ac na fydd unrhyw aflonyddu'n cael ei oddef.
- Bydd yr ysgol yn rhagweithiol wrth ddathlu llwyddiannau, unigol ac ar y cyd, gan bobl o bob cefndir ethnig. Rhaid i bob dysgwr weld ac ymglyfarwyddo ag amrywiaeth o ddiwylliannau sy'n cael eu gwerthfawrogi'n gadarnhaol.
- Mae'r ysgol yn ymdrechgu i fod yn ysgol wrth-hiliaeth weithredol, yn unol â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru.
- Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu ethos, cwricwlwm ac addysgu gwrth-hiliaeth – fel bod gan bob dysgwr gynrychiolaeth gadarnhaol a dealltwriaeth o grwpiau hiliol.

- Mae'r cwricwlwm cyfan yn ymdrechu i herio hiliaeth yn weithredol.
- Bydd dysgwyr yn ein hysgol yn dysgu bod hiliaeth, ym mhob ffurf, yn annerbyniol ac mai cyfrifoldeb pawb yw ei herio.
- Ni chaniateir symbolau, bathodynau nac arwyddluniau hiliol yn yr ysgol.

3. Cyfrifoldebau

Mae disgwyl i ddysgwyr:

- Drin eraill ag urddas, yn unol â gwerthoedd ac ethos yr ysgol.
- Rhoi gwybod am ddigwyddiad os ydynt yn teimlo eu bod wedi profi hiliaeth neu wedi gweld digwyddiad o'r fath.
- Gofyn am help gan staff i ddad-ddwysáu sefyllfa anodd heb ffoi at ddial.

Mae disgwyl i rieni a gofalwyr:

- Siarad â'u plentyn, gwranddo, tawelu, a rhoi gwybod i'r ysgol os ydynt yn credu bod eu plentyn wedi profi hiliaeth yn y gymuned ysgol. Mae trafod digwyddiadau ar gyfryngau cymdeithasol neu'r wasg yn ei gwneud yn anodd i'r ysgol ymchwilio'n wrthrychol.
- Cefnogi polisiâu'r ysgol ac annog eu plentyn i fod yn aelod cadarnhaol o'r ysgol.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Uwch yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod pawb yn gwybod sut i adrodd am ddigwyddiadau hiliol.
- Ymchwilio digwyddiadau a darparu addysg ailgyfeirio ac/neu gosbau priodol.
- Bod yn bwynt cyswllt hyfforddedig ar gyfer honiadau o hiliaeth a rhoi ymatebion amserol a phroffesiynol.
- Monitro data cyrhaeddiad, gwaharddiadau a phresenoldeb yn ôl ethnigrwydd a mynd i'r afael â rhwystrau.
- Sicrhau bod cofnodion clir, cyson a thrylwyr o bob digwyddiad hiliol neu ragfarnol ar system ddiogelu'r ysgol – 'My Concern', gyda goruchwyliaeth gan arweinwyr.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y polisi hwn ar gael yn rhwydd a bod pawb (llywodraethwyr, staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr) yn gyfarwydd ag ef.
- Sicrhau bod y polisi a'i weithdrefnau'n cael eu dilyn.
- Cynhyrchu gwybodaeth reolaidd am y polisi a'i weithrediad a darparu hyfforddiant i staff a llywodraethwyr.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cael cefnogaeth.
- Cymryd camau priodol mewn achosion o aflonyddu neu wahaniaethu hiliol.
- Darparu adroddiad tymhorol i'r corff llywodraethu ar ddigwyddiadau hiliol.

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am:

- Hyrwyddo derbyniad o amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig.
- Bod yn wyladwrus er mwyn peidio â cholli ymddygiad hiliol.
- Delio ag achosion hiliol, cydnabod a herio rhagfarn a stereoteipiau hiliol.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hil da, ac osgoi gwahaniaethu.
- Cadw'n gyfredol â'r gyfraith a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am:

- Sicrhau cydymffuriad â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth berthnasol ac ymgorffori'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig.

4. Disgwyliadau o Staff

- Hyrwyddo ethos cynhwysol a chydweithredol gyda dysgwyr, staff, llywodraethwyr ac ymwelwyr.
- Cymryd pob math o hiliaeth o ddifrif ac ymyrryd i'w hatal.
- Cofnodi ac ynganu enwau'n gywir.
- Bod yn ymwybodol o ragdybiaethau diwylliannol a rhagfarn bersonol.
- Peidio defnyddio iaith sy'n cynnal delweddau negyddol o bobl o liw (e.e. 'trydydd byd' neu 'brodorion').
- Adolygu adnoddau i sicrhau neges gynhwysol a chywir sy'n meithrin parch ac urddas.
- Dangos parch cyfartal at bawb – canmol, gwobrwyo a dathlu llwyddiant pob dysgwr.
- Cofio bod dysgwyr yn gweld ymddygiad staff fel model – felly mae'n hanfodol i staff ddangos goddefgarwch, dealltwriaeth a gofal tuag at blant ac aeddfedrwydd proffesiynol tuag at oedolion.

Atodiad 3

Arfer Dda i Staff

Mae'n hanfodol bod gwaith i fynd i'r afael â materion hiliaeth a chydaddoldeb yn digwydd ar bob cyfle trwy'r cwricwlwm a addysgir. Mae yna amrywiaeth eang o strategaethau y gall athrawon eu mabwysiadu yn eu hystafell ddosbarth i gefnogi dull yr ysgol o ddelio â hiliaeth a'i thrafod gyda'r holl ddysgwyr.

Gallai'r rhain gynnwys:

- Darparu delweddau cadarnhaol a modelau rôl mewn adnoddau, arddangosfeydd a deunydd hyrwyddo sy'n adlewyrchu profiadau a chefnidiroedd pob dysgwr yn ein cymdeithas amlddiwylliannol.
- Archwilio'n feirniadol adnoddau presennol yn yr ysgol i sicrhau nad yw delweddau a safbwyntiau stereoteipiedig ac hen ffasiwn o grwpiau o bobl yn cael eu cynnal.
- Datblygu dimensiynau byd-eang yn y cwricwlwm sy'n gwerthfawrogi cyfraniadau pob person at ddiwylliant byd-eang ac sy'n mynd i'r afael yn feirniadol â materion datblygiad byd-eang ac ymddibyniaeth rhwng cenhedloedd.
- Archwilio, gyda'r dysgwyr ar lefel briodol, faterion hiliaeth a chydaddoldeb mewn ystod o gyd-destunau personol, cymunedol a byd-eang a'u gwahodd i ddatblygu strategaethau i hyrwyddo cyfiawnder a herio anghyfiawnder.
- Annog dulliau cydweithredol a chydweithiol o ddysgu a sicrhau bod profiadau diwylliannol ac ieithyddol plant yn cael eu hadlewyrchu a'u meithrin yn gadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth.
- Magu cysylltiadau cadarnhaol â grwpiau cymunedol a defnyddio asiantaethau allanol yn llawn i sicrhau bod dimensiwn amlddiwylliannol y cwricwlwm yn cael ei ddatblygu'n llawn.
- Gosod disgwyliadau uchel o ddysgwyr o bob cefndir ethnig a'u gwneud yn ymwybodol o'n hyder yn eu gallu i lwyddo a sicrhau bod anghenion unigol pob disgybl yn cael eu diwallu yn academiaidd ac yn gymdeithasol.

Atodiad 4

Protocol ar gyfer Ymateb i Ddigwyddiadau o Hiliaeth

Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen am addysg i ddileu hiliaeth. Rhaid i bob rhanddeiliad yn yr ysgol allu adnabod hiliaeth, rhagfarnau diwylliannol neu ragfarn anymwybodol er mwyn i ni fel cymuned allu ymateb, herio a chymryd camau i'w hatal.

